

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Courtland Dental, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 15 Hydref 2024

Dyddiad cyhoeddi: 15 Ionawr 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith.....	21
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o bractis Courtland Dental, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 15 Hydref 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o saith holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd pedwar gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y staff ym Mhractis Courtland Dental yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w cleifion.

Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion mewn modd cwrtais, cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd amrywiaeth dda iawn o wybodaeth yn cael ei darparu i'r cleifion am gyngor iechyd, y practis a'r triniaethau a ddarperir.

Dywedodd pob un ond un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y datganiad o ddiben ar gael ar wefan y practis.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd dymunol mewn cyflwr da
- Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth ddefnyddiol ar gael i'r cleifion
- Roedd addasiadau wedi'u gwneud er mwyn helpu pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn drefnus ar y cyfan. Roedd y deintyddfeydd yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.

Roedd y staff yn dilyn gweithdrefnau clir i sicrhau bod offer deintyddol yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio. Roedd ystafell ar wahân yn cael ei defnyddio i ddihalogi, ac mae hyn yn arfer dda yn ein barn ni.

Roedd pob ardal yn ymddangos yn lân ac yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cyflawni gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio ar flaen y safle ar y tu allan
- Sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cwblhau'n llawn ac mewn modd cyson
- Adolygu'r trefniadau diogelwch er mwyn cyfyngu ar fynediad at yr ardaloedd i staff yn unig.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cyfarpar clinigol yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol
- Roedd mesurau priodol ar waith i sicrhau arferion rheoli heintiau o safon uchel
- Roedd polisiau a gweithdrefnau ar waith i helpu i sicrhau gofal diogel ac effeithiol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir ar waith ym Mhractis Courtland Dental. Roedd rheolwr y practis yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal o safon uchel. Gwnaethom nodi fod y grŵp corfforaethol yn rhoi cymorth da.

Roedd cofnodion y staff yn cael eu cynnal yn dda, a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf yn unol â'r gofynion rheoliadol. Gwelsom dystiolaeth hefyd o gyfarfodydd staff rheolaidd a phrosesau rheoli perfformiad.

Roedd y polisiau a'r gweithdrefnau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Roedd y practis yn gwneud defnydd da o systemau electronig er mwyn helpu i reoli a gwella'r gwasanaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rheoli'r practis yn effeithiol, gyda chymorth gan y grŵp corfforaethol ehangach
- Roedd systemau ar waith i sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Systemau a chofnodion cadarn ar gyfer recriwtio a chyflogi staff.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth eang o wybodaeth ddefnyddiol i'r cleifion, ac roedd amrywiaeth dda o bosteri a thafleini yn yr ardal aros. Roedd y rhain yn cynnwys cyngor ar iechyd cyffredinol ac iechyd y geg. Roedd ffolder gwybodaeth i gleifion gynhwysfawr yn cael ei darparu hefyd, a oedd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am y practis, iechyd a'r gwasanaethau a ddarperir.

Roedd datganiad o ddiben y gwasanaeth ar gael yn hawdd yn y practis ond nid oedd wedi'i gynnwys ar ei wefan.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwefan y practis yn cynnwys copi o'i ddatganiad o ddiben.

Roedd arwyddion 'dim smygu' yn cael eu harddangos yn glir, a oedd yn dangos bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC a fynegodd farn fod y staff wedi esbonio iechyd y geg yn glir a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau, ac roedd cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn yr ardal aros, er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Lle y bo'n ofynnol, roedd bleinds wedi'u gosod ar y ffenestri allanol yn yr ardaloedd clinigol er mwyn hybu preifatrwydd y cleifion.

Roedd prisiau triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat ar gael yn glir i'r cleifion ar bosteri yn ardal y dderbynfa, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gwelwyd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr gyfredol hefyd.

Roedd naw egwyddor cod safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos ar bosteri yn yr ardal aros, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd enwau'r staff clinigol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn glir y tu allan i'r practis.

Dywedodd y staff wrthym y gallai cleifion a fyddai am gael sgwrs gyfrinachol fynd i swyddfa rheolwr y practis neu ddeintyddfa wag.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf, a wnaeth gadarnhau bod gwybodaeth adnabod a hanes meddygol priodol yn cael eu cofnodi.

Dywedodd pob un ond un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC a fynegodd farn fod y staff wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, ynghyd â'u risgiau a'u manteision.

Amserol

Gofal amserol

Dywedodd y staff wrthym fod system anfon neges ar unwaith ar waith i'r rhai a oedd yn gweithio yn y deintyddfeydd er mwyn rhoi gwybod i staff y dderbynfa am unrhyw oedi. Byddai'r cleifion wedyn yn cael gwybod am yr oedi ar lafar ac yn cael cynnig yr opsiwn i aildrefnu'r apwyntiad pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Roedd oriau agor y practis a rhif ffôn argyfwng y tu allan i oriau wedi'u harddangos yn glir ar ddrws ffrynt y safle ac ar wefan y practis. Gallai cleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.

Dywedodd y staff wrthym y gwneir pob ymdrech i gynnal apwyntiadau brys a bod apwyntiadau brys yn cael eu blaenoriaethu, yn seiliedig ar symptomau ac anghenion clinigol y cleifion.

Roedd rhestr canslo apwyntiadau yn cael ei defnyddio a byddai'r cleifion sydd ar y rhestr yn cael neges destun SMS yn awtomatig pan fydd rhywun yn canslo apwyntiad yn eu gwahodd i ffonio'r practis i drefnu apwyntiad.

Dywedodd pawb ond un a ymatebodd i holiadur AGIC ei bod naill ai'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Roedd un ymatebydd yn anghytuno'n gryf a dywedodd ei fod yn credu bod y practis "o dan bwysau aruthrol".

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dyweddod y staff wrthym fod gwasanaethau cyfieithu ar gael iddynt pe bai eu hangen ar gyfer cleifion nad ydynt yn siarad Saesneg neu'r rhai hynny sy'n defnyddio iaith Arwyddion Prydain.

Roedd y practis yn gweithredu 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, ac roedd deunyddiau ar gael yn ddwyieithog, fel y weithdrefn gwyno a phrisiau'r triniaethau. Roedd poster yn ardal y dderbynfa yn rhoi gwybod i gleifion y gellid darparu gwasanaeth Cymraeg ar gais.

Nid oedd unrhyw aelodau o'r staff yn y practis yn siarad Cymraeg ar adeg yr arolygiad. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym fod staff y dderbynfa wedi cwblhau hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac y gellid defnyddio aelodau o staff o'r chwaer bractis yn ôl yr angen.

Hawliau a chydaddoldeb

Roedd polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar waith yn y practis, a oedd yn cynnwys diffiniadau o nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cwblhau hyfforddiant blynyddol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, a oedd yn cynnwys hyfforddiant ar niwroamrywiaeth.

Dyweddod y staff wrthym fod enwau a/neu ragenwau a ffefrir yn cael eu nodi yng nghofnodion y cleifion, er mwyn sicrhau bod cleifion trawsryweddol yn cael eu trin â pharch Roedd arwydd a oedd yn nodi 'toiled cynhwysol' ar ddrws y toiled i gleifion gyda phictogram a oedd yn dangos llun o ddyn, menyw ac unigolyn anneuaid.

Gwelsom fod darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd, gan gynnwys deintyddfa ar y llawr gwaelod. Gellid cyrraedd y drws ffrynt gan ddefnyddio ramp isel ac roedd cloch drws lefel isel arno er mwyn i'r cleifion alw am gymorth os oedd angen. Roedd toiled hygyrch i gleifion ar y llawr gwaelod a oedd yn cynnwys handlenni cydio, larwm argyfwng a thoiled uchel.

Roedd breichiau ar dair cadair yn yr ardal aros er mwyn helpu cleifion ag anawsterau symudedd ac roedd dolen sain ar gael i helpu cleifion ag anawsterau clywed.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod yr adeilad yn lân, mewn cyflwr da ar y cyfan ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Gwnaethom nodi fod y landeri ar flaen yr eiddo wedi blocio, a oedd wedi achosi difrod dŵr i'r adeilad. At hynny, roedd angen atgyweirio a chynnal a chadw blaen yr adeilad ar y tu allan.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud ar flaen yr adeilad ar y tu allan er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn addas at y diben o hyd.

Roedd gan y practis Bolisi Iechyd a Diogelwch ac Aseiad Risg Iechyd a Diogelwch cynhwysfawr ar waith, gyda thystiolaeth o'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin sylweddau y mae'r rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn berthnasol iddynt.

Roedd gan y practis brosesau Cynllunio ar gyfer Trychinebau a Gweithdrefnau Brys ar waith, a oedd yn cynnwys ffyrdd o reoli sefyllfaoedd gwahanol, manylion cyswllt a rhifau ffôn mewn argyfwng.

Gwnaethom edrych ar ddogfennau yn ymwneud â diogelwch tân a gwelsom fod aseiad risg tân priodol ar waith yn ogystal â chofnodion a oedd yn dangos bod y cyfarpar diogelwch tân wedi cael ei wirio a'i wasanaethu'n rheolaidd. Roedd y diffoddwyr tân yn cael eu storio'n gywir ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf.

Roedd tri aelod o'r staff wedi cael eu hyfforddi i fod yn wardeiniaid tân a gwelsom dystiolaeth bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylai'r rhain gynnwys enwau'r unigolion a oedd yn bresennol er mwyn nodi unrhyw aelodau o'r staff nad oeddent wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant.

Rydym yn argymhell y dylai cofnodion yr ymarferion tân gynnwys enwau'r unigolion a gymerodd ran wrth iddynt gael eu cynnal.

Roedd cynlluniau gwagio'r adeilad yn achos tân wedi'u harddangos yn glir. Gwnaethom nodi fod peth anghysondeb o ran y ffordd roedd y lloriau wedi'u nodi,

ond aethpwyd i'r afael â hyn yn ystod yr arolygiad a chafodd cynlluniau diwygiedig eu harddangos.

Roedd arwyddion clir yn dangos y llwybrau dianc. Esboniodd y staff bod mynediad at y llwybr dianc yng nghefn yr adeilad wedi'i gyfyngu gan fod y wal wedi ei difrodi. Roedd cynlluniau gwagio'r adeilad wedi cael eu diwygio i gyfeirio'r bobl at yr allanfa ym mlaen yr adeilad hyd nes y gellir datrys hyn. Os nad yw hyn yn bosibl, gellid defnyddio'r allanfa yng nghefn yr adeilad lle roedd posibl defnyddio'r ardd gefn fel cysgod nes y caiff y bobl eu hachub.

Gwelsom dystiolaeth bod profion cyfredol wedi cael eu cynnal ar offer cludadwy (PAT) ac offer nwy, a bod adroddiad wedi'i gwblhau ar y gosodiadau trydanol.

Roedd cyfleusterau newid a loceri ar gyfer storio eitemau personol ar gael i'r staff.

Gwnaethom nodi nad oedd mynediad at yr ardal i'r staff yn unig ar yr islawr na'r ystafell ddihalogi yn ddiogel ac y gallai pobl heb awdurdod fynd yno. Gwnaethom argymhell y dylid cynnal adolygiad er mwyn asesu a lleihau'r risg o fynediad heb awdurdod i'r ardaloedd hyn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r risg o fynediad heb awdurdod i ardal yr islawr a'r ystafell ddihalogi a sicrhau y caiff risgiau i ddiogelwch y staff a'r cleifion eu lleihau.

Roedd y toiled rhywedd cymysg i gleifion yn lân yr olwg, ac roedd yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ac uned gwaredu eitemau mislif.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod arferion rheoli heintiau o safon dda ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys polisiau a gweithdrefnau priodol, arweinydd rheoli heintiau dynodedig a threfniadau glanhau effeithiol. Roedd y seddi yn yr ardal aros wedi'u gwneud o ddeunydd y gellid ei sychu'n lân ac roeddent mewn cyflwr da.

Gwnaethom nodi fod angen atgyweirio rhai ardaloedd o'r llawr yn yr ardaloedd anghlinigol er mwyn sicrhau y gellid eu glanhau'n effeithiol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y llawr cyfan yn y practis mewn cyflwr da ac y gellid ei lanhau'n effeithiol.

Roedd ystafell ddynodedig yn y practis ar gyfer dihalogi a sterileiddio offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05. Gwelsom fod y gweithdrefnau ar gyfer prosesu, dihalogi a sterileiddio yn

briodol ac wedi'u deall yn dda. Roedd gwiriadau priodol yn cael eu cynnal o'r cyfarpar ac yn cael eu cofnodi.

Dyweddodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y practis yn 'lân iawn' neu'n 'eithaf glân' a bod mesurau atal a rheoli heintiau amlwg ar waith.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer gwaredu gwastraff, gan gynnwys Cyffuriau a Reolir, ac roeddem o'r farn eu bod yn foddhaol.

Gwnaethom archwilio'r trefniadau a oedd ar waith a'r cyfarpar a oedd ar gael i ddelio ag argyfyngau meddygol. Roeddem o'r farn bod y rhain yn foddhaol, bod y cyfarpar yn gyfredol a bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Yn yr un modd, roedd pecynnau cymorth cyntaf ar gael ac yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio silindrau ocsigen yn ddiogel.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn ardal ar gyfer y staff yn unig ond gallai pobl heb awdurdod gael mynediad at yr ardal hon hefyd. Aed i'r afael â hyn yn ystod yr arolygiad a symudwyd y cyffuriau i leoliad diogel y gallai'r staff ei gyrraedd o hyd. Roedd y cyffuriau yr oedd angen eu cadw mewn oergell yn cael eu storio'n briodol ac roedd gwiriadau dyddiol o'r tymheredd yn cael eu cynnal.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar adfywio cardiopwlmonaidd (CPR), a bod dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant i fod yn swyddogion cymorth cyntaf.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd Polisi Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Wynebu Risg cynhwysfawr ar waith a oedd yn cynnwys gwybodaeth am sut i godi pryderon, manylion yr arweinydd diogelu a manylion cyswllt cyrff allanol. Roedd y polisiâu a'r gweithdrefnau yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru 2019 ac yn cynnwys dolenni at y wefan. Roedd siartiau llif ar ddiogelu plant ac oedolion ar gael yn yr ystafell staff ac mewn ffolderi yn y deintyddfeydd.

Rheolwr y practis oedd yr arweinydd diogelu, ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant hyd at lefel 3 ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Roeddem o'r farn bod hyn yn enghraifft o arfer da.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Nodwyd gennym fod y cyfarpar clinigol yn y practis yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Gwelsom gofnodion gwasanaethu priodol ar gyfer cyfarpar, gan gynnwys y cywasgydd.

Gwelsom fod trefniadau diogel a phriodol ar waith er mwyn defnyddio'r cyfarpar pelydr-X a bod stocrestr, cofnodion cynnal a chadw a rheolau lleol ar gael. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Roedd gwybodaeth am fanteision a risgiau dod i gysylltiad â phelydr-X ar gael yn hwylus i'r cleifion.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod trefniadau diogel ar waith yn y practis ar gyfer derbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Esboniodd y staff sut y byddent yn dod o hyd i ganllawiau a chynghor proffesiynol ac yn eu dilyn lle byddai angen gwneud hynny.

Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol er mwyn lleihau'r risg o dynnu'r dant anghywir. Roedd copiau ar gael ym mhob deintyddfa.

Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n electronig ac yn unol â pholisi Rheoli Cofnodion priodol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf a gwelsom eu bod yn dderbyniol ar y cyfan, ond bod peth anghysondeb o ran y broses o gofnodi'r materion canlynol:

- dewis iaith
- cydsynio i driniaeth
- opsiynau triniaeth
- trafodaethau am y risgiau a'r buddiannau
- canfyddiadau clinigol y pelydrau-X
- y rhesymau dros ragnodi gwrthfotigau.

At hynny, gwelsom nad oedd rhai cofnodion yn cynnwys y cynlluniau triniaeth wedi'u sganio na phelydrau-X diweddar digonol wrth gynnal triniaeth gymhleth ac nad oedd rhai yn nodi'n glir p'un a oedd hanes meddygol y claf wedi cael ei adolygu ai peidio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion y cleifion eu cwblhau'n llawn ac yn gyson.

Effeithlon

Effeithlon

Roedd y safle a'r cyfleusterau yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yr oedd angen gofal brys arnynt yn cael blaenoriaeth lle y bo'n bosibl, a bod unrhyw apwyntiadau a ganslwyd yn cael eu cynnig i eraill gan ddefnyddio rhestr aros.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Dim ond pedwar aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC a chafwyd ymatebion cymysg. Yn gyffredinol, roedd y sylwadau mewn perthynas â gofal cleifion a'r driniaeth a ddarperir yn gadarnhaol. Roedd pob ymatebydd yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth roeddent yn eu rhoi i'r cleifion ac yn fodlon ar y ffaith mai gofal cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis deintyddol. Fodd bynnag, dywedodd tri o'r pedwar ymatebydd nad oedd digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn briodol. Nododd un aelod o'r staff:

“Mae anhawster o ran recriwtio digon o ddeintyddion i drin ein poblogaeth yn hawdd yn ei gwneud yn anodd darparu gofal deintyddol o ansawdd mewn modd amserol”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd strwythurau rheoli clir ar waith, ac roedd y practis yn gweithredu o dan gyfarwyddyd rheolwr y practis, wedi'i gefnogi gan grŵp corfforaethol. Gwelsom ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel a dull gweithredu cadarnhaol ar gyfer gwneud gwelliannau.

Roedd cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal ac roedd y cofnodion ar gael i bob aelod o'r staff yn electronig. Dywedwyd wrthym fod y nyrsys deintyddol yn cael arfarniadau blynyddol a bod y deintyddion yn ymgymryd ag adolygiadau cymheiriaid a gwelsom dystiolaeth o hyn.

Gwelsom fod amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyflogi staff, gyda pholisi a phroses recriwtio clir.

Roedd gwiriadau priodol yn cael eu cynnal ar ddarpar gyflogeion, gan gynnwys prawf adnabod, yr hawl i weithio, cymwysterau a brechiadau a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Roedd rhestrau gwirio, a oedd yn benodol

i'r rolau, yn cael eu defnyddio wrth sefydlu staff er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn deall materion a gweithdrefnau sy'n benodol i'r practis.

Dywedwyd wrthym fod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio fel y bo angen a bod rhestrau gwirio tebyg yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau eu bod yn addas i weithio, ac er mwyn iddynt ymgysgu â'r practis a'i weithdrefnau.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, bod ganddynt yswiriant indemniad proffesiynol a'u bod wedi'u brechu'n briodol rhag Hepatitis B.

Roedd hyfforddiant y staff yn cael ei fonitro gan ddefnyddio system electronig ac roedd cyfleoedd dysgu da ar gael i'r staff a oedd yn cael eu cefnogi gan grŵp corfforaethol. Gwelsom gydymffurfiaeth dda â'r gofynion o ran hyfforddiant gorfodol ac roedd y systemau a oedd yn cael eu defnyddio yn effeithiol. Gwnaethom nodi bod y staff wedi ymgysgu â Datblygiad Proffesiynol Parhaus, ond nad oedd yr adran ar gyfer myfyrio ar y gwersi a ddysgwyd wedi'i chwblhau bob amser.

Rydym yn argymhell y dylai'r staff gwblhau'r adrannau dysgu myfyriol perthnasol wrth gwblhau cyrsiau hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei geisio gyda negeseuon testun SMS yn cael eu hanfon at gleifion yn dilyn triniaeth, yn eu gwahodd i gyflwyno adborth ar arolwg ar-lein. Fel arall, gallai'r cleifion gyflwyno adborth drwy Google Reviews, neu adael adborth yn y blwch awgrymiadau a oedd wedi'i leoli yn ardal y dderbynfa.

Dywedodd y staff wrthym fod unrhyw adborth yn cael ei adolygu a'i ddadansoddi'n rheolaidd ac yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd tîm. Roedd poster 'dywedoch chi, gwnaethom ni' yn yr ardal aros i ddangos bod camau gweithredu yn cael eu cymryd o ganlyniad i adborth.

Roedd gweithdrefn gwyno gynhwysfawr ar waith, gyda chopiau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn hwylus i gleifion. Roedd y weithdrefn yn cynnwys amserlenni priodol ar gyfer ymateb, sut i uwchgyfeirio'r mater pe bai angen, ynghyd â manylion cyrff allanol gan gynnwys AGIC a Llais, y gwasanaeth eirioli. Dywedodd y staff wrthym fod cwynion llafar ac ysgrifenedig yn cael eu cofnodi a'u hadolygu'n rheolaidd, a bod unrhyw faterion a champau gweithredu yn cael eu rhannu â'r staff yn ystod cyfarfodydd tîm.

Roedd polisi ar waith mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd a dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant priodol yn hyn o beth.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd y practis yn defnyddio systemau electronig yn effeithiol i reoli cofnodion y cleifion, polisiau a gweithdrefnau a chofnodion hyfforddiant y staff.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd Polisi Sicrhau Ansawdd a Llywodraethu ar waith yn y practis. Roedd hyn yn cynnwys sut dylai Cynlluniau Datblygu'r Practis gynnwys barn y cleifion, y cyfleusterau, adnoddau dynol, sicrhau ansawdd, gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol a materion ariannol.

Gwelsom dystiolaeth bod amrywiaeth o archwiliadau yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol: ymdrin â chwynion; gofynion WHTM 01-05; trin gwastraff; cofnodion cleifion; rhagnodi gwrthficrobaidd; a rhoi'r gorau i smygu.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn defnyddio adnoddau hyfforddi gwella ansawdd, fel yr Adnodd Hunanwerthuso ar gyfer Optimeiddio Sgiliau (SOSET) a'r Matrics Aeddfedrwydd.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Dywedodd y staff wrthym mai dros y ffôn neu drwy e-bost y byddent fel arfer yn rhyngweithio â phartneriaid system, neu drwy ddefnyddio systemau ar-lein fel y system ar gyfer atgyfeirio cleifion.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd anghysondeb yng nghynlluniau gwagio'r adeilad yn achos tân o ran y ffordd roedd lloriau'r adeilad wedi cael eu nodi.	Gallai ddiffyg eglurder ynghylch sut i wagio'r adeilad effeithio ar ddiogelwch cleifion yn achos tân.	Cafodd hyn ei godi gyda Rheolwr y Practis.	Cafodd cynlluniau a oedd wedi eu diwygio'n addas eu harddangos yn ystod yr arolygiad.
Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn ardal ar gyfer y staff yn unig ond gallai pobl heb awdurdod gael mynediad at yr ardal hon hefyd.	Gallai pobl heb awdurdod gael gafael ar feddyginiaeth frys o bosibl a fydd yn achosi niwed a risg i gleifion eraill.	Cafodd hyn ei godi gyda Rheolwr y Practis.	Yn ystod yr arolygiad, symudwyd y cyffuriau brys i leoliad diogel y gallai pob aelod o'r staff eu cyrraedd.

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Courtland Dental

Dyddiad yr arolygiad: 15 Hydref 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Dd/G

Swydd: Dd/G

Dyddiad:

Dd/G

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Courtland Dental

Dyddiad yr arolygiad: 15 Hydref 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
1.	Nid oedd Datganiad o Ddiben y gwasanaeth wedi'i gynnwys ar wefan y practis.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwefan y practis yn cynnwys copi o Ddatganiad o Ddiben y gwasanaeth.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 6(2)	Mae Datganiad o Ddiben y practis wedi cael ei ychwanegu at y wefan ac mae bellach ar gael i'w ddarllen	Rachel Thomas Rheolwr Cydymffurfiaeth	Wedi'i gwblhau
2.	Roedd y landeri ar flaen yr eiddo wedi blocio, a oedd wedi achosi difrod dŵr i'r adeilad. At hynny, roedd angen atgyweirio a chynnal a chadw blaen yr adeilad ar y tu allan.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud ar flaen yr adeilad ar y tu allan er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn addas at y diben o hyd.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22(2)	Oherwydd uchder yr adeilad, rydym wedi cael dyfynbrisiau i lanhau'r landeri ac wedi gwneud cais i gynnal asesiad o flaen yr adeilad er mwyn asesu unrhyw niwed a allai fod wedi digwydd gan fod dŵr yn gorlifo.	Rachel Richards Rheolwr y Practis	1 mis

3.	Roedd ymarferion tân wedi cael eu cynnal, ond nid oedd y cofnodion yn nodi'r aelodau o staff a gymerodd ran ynddynt.	Rydym yn argymhell y dylai cofnodion yr ymarferion tân gynnwys enwau'r unigolion a gymerodd ran wrth iddynt gael eu cynnal.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22(4)	Rydym wedi diweddarau cofnodlyfr tân y practis i gynnwys cofnod o aelodau'r staff a oedd yn bresennol yn ystod pob ymarfer tân.	Rachel Thomas Rheolwr Cydymffurfiaeth	Wedi'i gwblhau
4.	Byddai pobl heb awdurdod o bosibl yn gallu mynd i mewn i'r ardal ar gyfer staff yn unig ar yr islawr a'r ystafell ddihalogi.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r risg o fynediad heb awdurdod i ardal yr islawr a'r ystafell ddihalogi a sicrhau y caiff risgiau i ddiogelwch y staff a'r cleifion eu lleihau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22(2)	Mae cloeon y gellid eu hagar â chodau wedi cael eu gosod ar ddrysau'r ystafell ddihalogi ac ystafell y staff.	Rachel Richards Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
5.	Roedd angen atgyweirio rhai ardaloedd o'r llawr yn yr ardaloedd anghlinigol er mwyn sicrhau y gellid eu glanhau'n effeithiol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y llawr cyfan yn y practis mewn cyflwr da ac y gellid ei lanhau'n effeithiol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(6)(b)	Mae'r deunydd selio ar y llawr yn ystafell ymolchi'r staff yn glir. Rydym wedi ail-selio'r rhan hon o'r llawr gyda lliw bloc er mwyn sicrhau ei bod yn fwy gweladwy.	Rachel Richards Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
6.	Nid oedd rhai cofnodion yn cynnwys y cynlluniau triniaeth wedi'u sganio na phelydrau-X diweddar	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion y cleifion eu cwblhau'n llawn ac yn gyson.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 20(1)	Mae'r prosesau wedi cael eu hadolygu ar y cyd â thîm y practis ac mae systemau wedi cael eu rhoi ar waith i	Rachel Richards Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

digonol wrth gynnal triniaeth gymhleth ac nid oedd rhai yn nodi'n glir p'un a oedd hanes meddygol y claf wedi cael ei adolygu ai peidio.

wneud yn siŵr y caiff yr holl gynlluniau triniaeth a gaiff eu hargraffu eu sganio a'u cynnwys yng nghofnodion y cleifion.

Rydym wedi adolygu ein proses ac wedi ymchwilio i'r ffordd rydym yn cofnodi'r broses o adolygu hanes meddygol sydd wedi'i gynnwys ar y porth ac rydym yn fodlon ar y ffaith ei bod yn bodloni'r gofynion perthnasol.

Rydym wedi trefnu bod adolygiadau cymheiriaid clinigol yn cael eu cynnal gyda'r cynghorydd clinigol a'r deintyddion i drafod y defnydd o belydrau-X wrth gynnal triniaeth gymhleth

Rachel Thomas,
Rheolwr
Cydymffurfiaeth

Rachel Richards
Rheolwr y
Practis

Wedi'i
gwblhau

Wedi'i
gwblhau

7.	Lle roedd y staff wedi ymgymryd â Datblygiad Proffesiynol Parhaus, nid oedd yr adrannau ar gyfer myfyrio ar y gwersi a ddysgwyd wedi'u cwblhau bob amser.	Rydym yn argymhell y dylai'r staff gwblhau'r adrannau dysgu myfyriol perthnasol wrth gwblhau cyrsiau hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 17(1)	<p>Caiff y staff eu hatgoffa o bwysigrwydd ymarfer myfyriol yn unol â chanllawiau uwch Datblygiad Proffesiynol Parhaus y Cyngor Deintyddol Cyffredinol sy'n nodi y dylid cynnwys elfen o fyfyrrio fel rhan o'r broses DPP.</p> <p>Mae myfyrio yn broses unigol a allai fod yn wahanol i bawb.</p> <p>Byddwn yn ystyried addasu ein proses arfarnu i gynnwys adran ar gyfer myfyrio ar y DPP a gyflawnwyd. Bydd hyn yn galluogi'r staff i gael opsiynau, gan</p>	Rachel Richards Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
----	---	--	---	---	--------------------------------------	----------------

			gynnwys myfyrio gyda mentor, cymheiriaid, y cyflogwr neu ar ei ben ei hun er mwyn hyrwyddo'r gweithgarwch hwn.		
--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Rachel Thomas

Swydd: Rheolwr Cydymffurfiaeth

Dyddiad: 2 Rhagfyr 2024